# Portreadau

*Ar hyd y canrifoedd, mae arlunwyr wedi bod yn peintio harddwch merched, dewrder cymeriadau hanesyddol a chwedlonol a phurdeb cymeriadau Beiblaidd. Fodd bynnag, mae un arlunydd wedi peintio portreadau sy'n wahanol iawn i bortreadau artistiaid eraill. Yn wahanol i artistiaid eraill, mae e wedi defnyddio llysiau, ffrwythau, blodau, nwdls a darnau o goed i gynrychioli cymeriadau yn ei waith.*

Pwy yw'r artist yma? Giuseppe Arcimboldo.

## Artist y llysiau a'r ffrwythau



Cafodd Giuseppe Arcimboldo ei eni rywbryd rhwng 1526 a 1530 ym Milan, yr Eidal. Roedd ei dad yn artist yn eglwys gadeiriol Milan ac yno y dechreuodd Giuseppe ar ei yrfa e hefyd. I ddechrau, roedd e'n gweithio yng ngweithdai gwydr yr eglwys gadeiriol, yn cynllunio ffenestri lliw a oedd yn dangos bywydau'r saint. Yn ogystal, cynlluniodd sawl tapestri neu frithlen ar gyfer eglwys gadeiriol Como. Mae ei waith cynnar, felly, yn cynnwys naws a chymeriadau crefyddol.

Fodd bynnag, yn 1562, aeth i weithio yn llys yr Ymherodr Ferdinand 1 yn Wien (Vienna) ac yna'n hwyrach ym Mhraha (Prague). Yno, bu'n peintio portreadau o'r teulu – portreadau a oedd yn plesio'r ymherodr a'i deulu'n fawr.

Pan fu farw Ferdinand I yn 1564, parhaodd Arcimboldo fel artist y llys - y tro yma dan Ymherodr Maximilian II, a ddaeth yn lle Ferdinand. Peintiodd lawer o baentiadau yn ystod y cyfnod hwn ond yn ogystal, gan ei fod yn ddyn dawnus, bu'n gweithio fel pensaer, cynllunydd llwyfan, peiriannydd ac arbenigwr celf i Maximilian.

Ar ôl marwolaeth Maximilian, daeth Rudolph II i lywodraethu ac yr oedd e hefyd yr un mor frwdfrydig am waith celf Arcimboldo.

Un o brif weithiau'r artist oedd cyfres o baentiadau o'r enw **Y Pedwar Tymor**. Nid golygfeydd hardd o fyd natur yn ystod y gwahanol dymhorau sydd yn ei waith. Yn hytrach, mae **Y Gwanwyn** yn cael ei bortreadu fel gŵr ifanc sydd wedi ei wneud o flodau. Mae'r darlun **Yr Haf** yn dangos gŵr â'i ben wedi ei wneud o ffrwythau. Yn y darlun **Yr Hydref,** mae pen sydd wedi ei wneud o rawnwin a dail a ffrwythau'r hydref ac mae **Y Gaeaf** yn portreadu'r tymor fel hen ddyn sydd wedi ei wneud o hen goeden ag iorwg yn tyfu o'i chwmpas.

Yn 1587, dychwelodd Arcimboldo i'r Eidal ond roedd e'n dal i weithio i Rudolph II. Dyma pryd y peintiodd y llun **Vertumnus** (1590-1591), sef portread o Rudolph II. Yn y llun hwn, mae Rudolph wedi ei greu o ffrwythau, blodau a llysiau. Mae'n debyg ei fod wedi bod wrth ei fodd â'r llun.

Bu farw Arcimboldo ym Milan yn 1593 ac er iddo fod yn boblogaidd yn ystod ei oes, buan iawn yr anghofiwyd amdano ar ôl ei farwolaeth. Wedi dweud hynny, bu'n ysbrydoliaeth i artistiaid swreal yr ugeinfed ganrif, yn enwedig Salvador Dali.